# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad a gyflwynwyd ar 17 Medi 2015
# i'w hateb ar 22 Medi 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch bancio yng Nghymru? OAQ(4)2446(FM)

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella lles cyffredinol plant yng Nghymru? OAQ(4)2454(FM)

**3. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Diogelwch ar y Ffyrdd? OAQ(4)2450(FM)

**4. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â methiannau yn system y GIG yng Nghymru? OAQ(4)2437(FM)

**5. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd tuag at weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013? OAQ(4)2455(FM)

**6. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Cymru'n cael budd o aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd? OAQ(4)2447(FM)

**7. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda llywodraethau eraill yn y DU am effaith y digwyddiadau diweddar yng Ngogledd Iwerddon ar Gymru? OAQ(4)2445(FM)**W**

**8. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cyflog byw? OAQ(4)2439(FM)

**9. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am gynnydd o ran datganoli pellach i Gymru? OAQ(4)2453(FM)

**10. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal iechyd llygaid? OAQ(4)2452(FM)

**10. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y GIG yn Nghanol De Cymru am weddill y pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)2442(FM)

**12. Keith Davies (Llanelli):** Pa ystyriaeth y mae'r Prif Weinidog wedi'i rhoi i effaith adolygiad siarter y BBC ar Gymru? OAQ(4)2449(FM)**W**

**13. Peter Black (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth y DU ar ffracio ac echdynnu methan gwely glo yng Nghymru? OAQ(4)2440(FM)**

**14. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ardrethu annomestig busnesau hunanarlwyo yng Nghymru? OAQ(4)2443(FM)

**15. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am faint o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a leolir yn Islwyn? OAQ(4)2441(FM)